# Dewis Cenel Lletya

***Mae hi'n bwysig cymryd eich amser i ddewis cynelau lletya i sicrhau tawelwch meddwl, edrychwch o gwmpas y llety arfaethedig i wneud yn siŵr y bydd eich ci mor hapus gyda'i wyliau ag yr ydych chi gyda'ch gwyliau chi. Cynghorir chi i wneud hyn yn ystod oriau agor ac yn ddirybudd ond os yn bosibl dylid osgoi cyfnodau penwythnos/gwyliau banc prysur. Os yw perchennog cynel yn anfodlon ichi edrych o gwmpas, yna mae hyn yn bryder ac nid yw'n ddoeth gadael eich ci mewn lle o'r fath.***

1) **Trwyddedu**-cadarnhewch fod y cynelau arfaethedig wedi'u trwyddedu gan yr awdurdod lleol; mae hyn yn golygu y bydd y cyngor yn ymweld â'r cynelau o leiaf unwaith y flwyddyn i wneud yn siŵr fod safonau penodedig yn cael eu cwrdd. Dylai perchennog cynelau arddangos copi o hyn.
2) **Yswiriant**- cadarnhewch fod gan y cynelau bolisi yswiriant cyfredol i ofalu am eich ci petai'n mynd yn sâl yn eich absenoldeb. Mae hyn yn hanfodol bwysig os digwydd argyfwng gan fod biliau milfeddyg yn gostus yn aml.
3) **Brechiadau**- dylech ond letya eich ci mewn cynelau sy'n mynnu brechiadau cyfredol, yn cynnwys peswch cynel. Mae hyn yn diogelu eich ci rhag clefydau heintus, a'r tebygolrwydd o ddod i gysylltiad â nhw.
4) **Glanweithdra**- Gofynnwch am gael gweld pob un o'r cynelau yn y sefydliad lletya, gan edrych:

   ~ Maint y cynel y byddai eich ci yn cael ei roi ynddo (meddyliwch a ydych yn fodlon ar hyn)
   ~ Glanweithdra'r cynelau, dylai fod diheintydd gerllaw'r cynelau i'w ddefnyddio tra byddir yn glanhau (os nad yw yn y golwg gofynnwch am ei weld)
   ~Os yw'r cynelau wedi'u glanhau yn ddiweddar fe all y lloriau fod yn wlyb
   ~Y gegin/man paratoi bwyd, gan edrych eto ar lanweithdra, yn ogystal â'r drefn o ran beth y mae pa gi yn ei fwyta, yn arbennig os yw eich ci ar fwyd arbenigol/ag alergeddau arno/ar feddyginiaeth.
   ~ Holwch ynghylch gwres y cynel a phryd/sut y mae'n cael ei weithredu.

5) **Mannau ymarfer**- gofynnwch am gael gweld ble mae'r cŵn yn cael eu hymarfer; gallai hwn fod yn gowrt amgaeëdig neu'n gae. Gofynnwch a fydd yr ymarfer ar dennyn? Pa mor aml? am faint? Holwch a fydd eich ci yn cael cymysgu ag eraill oddi ar y tennyn - yn aml 'does dim modd rhagweld beth wnaiff cŵn a bydd y staff ond wedi eu hadnabod am amser byr (yn bwysig iawn os nad yw eich chi wedi'i gyweirio neu os nad yw'n cymysgu'n dda).
6) **Staff**- Holwch y staff ynghylch eu hyfforddiant a'u profiad, y rhain fydd y bobl sy'n gofalu am eich ci felly mae hi'n holl bwysig eu bod yn wybodus. Mae hyn yn arbennig o bwysig os oes gan eich ci natur fympwyol / ei fod yn frîd mawr/ ei fod ag angen meddyginiaeth neu'i fod â chôt hir a bod angen ei frwsio.
7) **Y Cŵn-**Yn olaf edrychwch ar y cŵn eu hunain, a oes golwg fodlon arnynt? A ydynt yn lân? A oes golwg iach arnynt? Sut maen nhw'n ymateb i'r staff? A oes ganddynt ddŵr glân?

Y peth gorau yw cael golwg ar ychydig o gynelau i weld gwahanol ddulliau a phwyso a mesur eich dewisiadau, ni fydd pob cynel yn addas ar gyfer pob ci. Unwaith y byddwch wedi dewis eich cynelau cynghorir chi i roi eich ci i mewn am arhosiad byr (un/dwy noson) i gael gweld a ydych chi a'ch ci yn fodlon ar y trefniant cyn arhosiad hirach.

Iechyd Anifeiliaid a Thrwyddedu, Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun.
LL15 1YN.
Rhif ffôn: (01824) 706086 / 706189 Ffacs: (01824) 706067
Ebost: iechydanifeiliaid@sirddinbych.gov.uk

CYNGOR Sir Ddinbych Denbighshire COUNTY COUNCIL